# CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**18 Chwefror 2020, Neuadd Talwrn**
**am 7:00 y.h.**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng W Vaughan, A Williams, D Pritchard, A Wyn, D ap Rhobert, W Williams, C McGregor, E Williams, D Rees (Cyngor Sir) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng D Roberts, C Jones, A C Jones | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng A Williams |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** - Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 21.01.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D ap Rhobert yn eilio |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb |
| **4.2** | **"Lay By Llangwyllog"** - Nid yw y car yn parcio yna ar hyn o bryd. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir gosod arwydd dim parcio |
| **4.3** | **Llwybr Tre Ddewi** - mewn llaw |
| **4.4** | **RAF y Fali** - Mae'r Clerc yn disgwyl am dyddiad y cyfarfod |
| **4.5** | **Eglwys Llanddyfnan** - Mae'r Clerc yn disgwyl am dyddiad y cyfarfod. Mewn absenoldeb ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru, bydd y Clerc yn tynnu y mater o'r agenda a bydd yn dweud wrthynt y bydd y cyngor yn eu dal yn gyfrifol am unrhyw broblemau ar y safle yn y dyfodol |
| **4.6** | **Coed** o gwmpas y lamp ar draws i Bodlondeb a'r golau wrth ymyl Glascoed - Bydd y Clerc yn gofyn am cyfarfod ar y safle |
| **4.7** | **Ffordd o groesffordd Talwrn i Bentraeth** yn dirywio - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir |
| **4.8** | **BDO adroddiad 2018/19** - Mae BDO yn cadarnhau bod y cofnodion wedi cael eu derbyn. Nid oes unrhyw daliadau am waith ychwanegol ar yr anfoneb. Cytunwyd i dalu'r bil |
| **4.9** | **Bysiau Capel Coch** - Mae'r clerc yn disgwyl gwybodaeth oddiwrth Cyng Aaron Jones |
| **4.10** | **Costau Aelodau -** Esboniodd y Clerc y dylid talu'r taliad blynyddol o £150 am costau yn awtomatig i'r holl aelodau a Chadeirydd heb unrhyw bwysau i wrthod taliad. Gellir ystyried taliad ychwanegol o £500 i'r Cadeirydd, ond rhaid i'r Cyngor gytuno ar hyn |
| **5** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **5.1** | HHP/2020/9 Tyn Lon, Glan Gors, Llangefni - mynediad i'r adeilad yn beryglus |
| | **Llofnod…….Cadeirydd 09.06.20** |

| | |
|---|---|
| **5.2** | HHP/2020/17 Glasfryn, Lon Clai, Llangefni - dim sylwadau |
| **5.3** | LUE/2020/3 Refail, Llanffinan - bydd y Clerc yn gofyn am mwy o wybodaeth |
| | **Adran Addysg** |
| **5.4** | Ymgynghoriad Ysgol Talwrn - Gofynnodd Cyng D Rees i bawb ddarllen yr ymgynghoriad cyn gwneud sylwadau. Trafodir hyn yn y cyfarfod nesaf |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **6.1** | Medrwn Môn - Siapio Lle - nodyn i gadarnhau bod y prosiect wedi apwyntio swyddogion: Delyth a Heledd. |
| **6.2** | Menter Môn - Prosiect Calon Gudd Môn - Mae Menter Môn yn gweithio gyda grwp lleol ers 12 mis ar gynllun hanesyddol sy'n rhanu hanesion a chwedlau cudd mewndir Môn ar gyfer pobl lleol ac i ddenu ymwelwyr. Mae'r prosiect yn cysylltu tair ardal Llanerchymedd, Llandyfrydog a Maenaddwyn ac yn cynwys gosod un arwydd/panel ym mhob ardal. Cytunwyd i dalu £190 at panel Maenaddwyn |
| | |
| **7** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu |
| **7.1** | Capel Gosen £80.00 (rhent) |
| **7.2** | Anglesey Computer Solutions £297.00 |
| **7.3** | Swyddfa Archwilio Cymru £305.80 |
| **7.4** | Menter Môn £190 |
| | |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Contract torri gwair - Mae'r Clerc wedi derbyn un tender gan Gareth Hughes. Cytunwyd i ofyn am mwy o prisiau |
| **8.2** | Cynrychiolydd Unllais Cymru - Oherwydd ymrwymiadau eraill, gofynnodd Cyng D ap Rhobert a allai rhywun arall gynrychioli'r cyngor. Bydd y Clerc yn gofyn am wirfoddolwr bob tro y bydd agenda'r cyfarfod chwarterol yn cyrraedd |
| **8.3** | Llinell wen - Yn dilyn gwaith ffordd, bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir ail-baentio'r llinell wen ar ochr y ffordd o gyffordd Llangwyllog heibio Dolmeinir i lawr i mynedfa Llyn Cefni |
| **8.4** | Japanese knotweed - Soniodd Cyng W Williams bod y problem dal i fynd ymlaen. Dywedodd y Clerc bod Cyng Nicola Roberts wedi cysylltu a ysgrifenydd Pwyllgor Neuadd Talwrn |
| **8.5** | Polion ar Mynydd Bodafon - trafod yn y cyfarfod nesaf |
| **8.6** | Baw ci Mynydd Bodafon - Bydd y Clerc yn cysyllltu a cynrychiolydd AONB - maent wedi cael cyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth ynghylch, ac i gymryd camau gweithredu ynghylch baw ci yn cymunedau lleol |
| **8.7** | Baw ci Talwrn - Bydd y Clerc yn cysylltu a AONB - gweler 8.6 |
| **8.8** | Tan y Felin/Ty'n Beudy - Pyllau dŵr ar draws y ffordd - bydd Cyng A Williams yn dod yn ôl at y Clerc |
| | |
| **9** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **9.1** | Bydd y Clerc yn cynnig gwahoddiad i PCSO i'r cyfarfod nesaf |
| | **Llofnod…….Cadeirydd 09.06.20** |

| | |
|---|---|